YR YSTWYLL 6

2 BRENHINOEDD 5:1-14; SALM 30;
1 CORINTHIAID 9:24-27; MARC 1:40-45

● **Gweddi agoriadol**

Bendithia bawb a ddaeth ynghyd
yma heddiw i addoli.
Bendithia'r rhai sy'n arwain
a'r rhai sy'n gwasanaethu.
Bendithia'r rheini sy'n gryf
a'r rheini sy'n wan.
Bendithia'r rheini sy'n ifanc
a'r rheini sy'n hen.
Bendithia bawb a ddaeth ynghyd
i addoli yma heddiw.

● **Moliant**

Deui atom
mewn ffyrdd annisgwyl,
gan ddod â iechyd,
llawnder
ac adferiad
mewn corff, meddwl ac enaid.
Nid mewn perth yn llosgi
na fflach mellten
na rhu taran,
ond mewn gair tawel,
tynerwch
a chyffyrddiad iachusol.

Boed i'n calonnau ddatgelu
parodrwydd
i anwylo tawelwch,
clywed dy sibrwd
a deall mwy
ar dy gariad,
dy ras, dy wirionedd.

● **Cyffes**
Atat ti yn unig y down,
Waredwr,
Iachawdwr,
Offeiriad a Brenin,
gan ymddiried yn dy ras
a'th barodrwydd i faddau.
Atat ti yn unig y down,
  dan bwysau
baich ein pechod,
  yn gaeth,
heb geisio dim ond rhyddhad.

Atat ti yn unig y down,
Waredwr,
Iachawdwr,
Offeiriad a Brenin,
fel bo'n calonnau
yn cael eu cyffroi i wasanaethu
ac nid i fod yn llonydd.

● Diolch

Pan fo ein calonnau yn drwm,
a'r corff yn wan,
bywyd wedi'i lenwi â thristwch,
a'r ysbryd yn isel;
pan fo dyddiau yn unig,
yn dywyll dan gwmwl,
a heulwen yn methu
torri trwodd;
diolch am y sicrwydd
nad wyt ti
byth ymhellach
nag y gall
gweddi sibrwd ei gyrraedd,
byth yn nes
na phan fyddwn wedi blino
ac ar ein gliniau.